



HM Passport
Office

Dywedoch Chi

Gwnaethom Ni

Newidiadau yr ydym wedi'u gwneud o'ch adborth

Dywedoch chi...

Roeddech chi eisiau mwy o opsiynau ar gyfer tynnu llun pasbort digidol wrth ymgeisio ar-lein.

Roeddech chi eisiau ffyrdd newydd o gysylltu â Swyddfa Basbort ei Mawrhydi a chael y cyngor yr oedd ei angen arnoch chi i ymgeisio am basbort.

Roeddech chi eisiau siarad â pherson a allai eich helpu chi ar unwaith, yn enwedig pan fyddai ein llythyr yn gofyn i chi ein ffonio ni.

Mae'r llyfryn arweiniad a ddaw gyda'r ffurflen ymgeisio yn rhy gymhleth.

Gwnaethom Ni...


Ymgeisio ar-lein yw'r ffordd rataf a symlaf o gael pasbort. Mae mwy o ddewis hefyd i gael eich llun digidol yn gywir. Rydym wedi gweithio gyda'r diwydiant lluniau er mwyn i chi allu cael eich llun wedi'i dynnu gan eich darparwr gwasanaeth ffotograffig dewisol, a defnyddio cod uwchlwytho llun i fewnforio'ch llun yn uniongyrchol i'ch cais pasbort ar-lein.

Lansiwyd ein cyfrif Twitter ym mis Gorffennaf 2018. Mae'n cynnig ffordd newydd i ni ateb eich cwestiynau a gwrando ar eich adborth am ein gwasanaethau.

Dilynwch ni @HM_Passport

Fe wnaethom ychwanegu rhif ffôn uniongyrchol y person a anfonodd y llythyr, yn lle rhoi ein rhif canolfan alw i chi.

Rydym wedi ailgynllunio'r llyfryn – gan ei gwneud hi'n haws i'w ddarllen, ac yn gynt ac yn symlach i ganfod y wybodaeth yr ydych chi ei hangen i wneud eich cais.



Gallwch roi eich adborth i ni ar ein gwasanaethau

- trwy ddefnyddio'r daflen **Beth ydych chi'n ei feddwl?**
- neu drwy lenwi ein ffurflen ar-lein yn https://eforms.homeoffice.gov.uk/outreach/Passport_Enquiries.ofm

